MORGAN, WILLIAM (1819 - 1878), bardd

Enw: William Morgan
Dyddiad geni: 1819
Dyddiad marw: 1878
Priod: Mary Morgan (née Jones)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Watkin William Price

Ganwyd 3 Gorffennaf 1819 yng Nghefn-coed-cymer, gerllaw Merthyr Tydfil. Yr oedd ei fam yn nith i'r Dr. George Lewis. Symudodd y rhieni i Aberdâr pan oedd y plant yn ieuanc. Daeth y mab yn flaenllaw yng nghylchoedd Methodistaidd Aberdâr a'r cylch. Yr oedd yn gyfeillgar â John Roberts ('Ieuan Gwyllt'), a ddaeth i'r ardal i olygu *Y Gwladgarwr*, 1858; iddynt hwy, yn anad neb, y mae'r clod am sefydlu y 'gymanfa ganu' (1859), sefydliad a ledodd trwy Gymru yn fuan wedi hynny. Priododd Mary, chwaer Noah Morgan Jones ('Cymro Gwyllt'). Daeth Ann, ei chwaer, yn wraig David Williams ('Alaw Goch'). Bu farw 7 Medi 1878 a chladdwyd yng nghladdfa Aberdâr.

Awdur

Watkin William Price, (1873 - 1967)

Ffynonellau

Ben Morus, *Enwogion Aberdâr* (1910)

The Aberdare illustrated almanac, 1896, 45

Y Cylchgrawn, Hydref 1878 a Ionawr 1879

Y Traethodydd, 1879, 115-27

Y Geninen (G yl Dewi), 1908, 54

John Mills, *Hanes Bethania, Aberdâr*

NLW MSS 2196-7

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360890

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu